# **Arweiniad atodol:** arfarnu perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Hydref 2017**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw diben yr arweiniad atodol hwn?**

Darparu'r arweiniad diweddaraf ar gyfer arolygwyr ar arfarnu perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig.

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a'r sector Ôl-16/AB.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2017.

## Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## Arweiniad ar arfarnu perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

Os bydd darparwr yn cael barn ‘rhagorol’ ar gyfer unrhyw un o’r meysydd arolygu, yna bydd y tîm arolygu wedi nodi enghreifftiau o berfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig yn y darparwr. Wrth drafod y posibilrwydd hwn yn ystod cyfarfodydd tîm, bydd angen i arolygwyr gael tystiolaeth glir fod perfformiad ac arferion y darparwr yn gryf iawn a chynaledig. Mae’r pwyntiau isod yn rhoi arweiniad i’r tîm arolygu wrth ystyried barn ‘rhagorol’ o dan y trefniadau arolygu newydd.

1 Mae’n bwysig iawn fod parhad yn y modd yr ydym yn cymhwyso barnau rhwng y trefniadau presennol (cyn 2017) a’r fframwaith newydd. Nid yw disgwyliadau Estyn o ansawdd y gwaith sy’n ofynnol i gael barn ‘rhagorol’ wedi newid. Ni ddylai’r fframwaith newydd gynrychioli dull llymach nac ysgafnach yn gyffredinol.

2 Rhaid i arferion cryf iawn fod yn hynod effeithiol, a dylid gweld yr effeithiolrwydd o ran ei effaith amlwg ar gynnydd, cyflawniad a lles dysgwyr. Mae perfformiad ac arferion cynaledig yn golygu y bydd tystiolaeth glir o effaith arferion ar gynnydd, cyflawniad a lles dysgwyr dros gyfnod. Fodd bynnag, mae’n cyfeirio at ba mor sefydledig yw arfer ar draws holl feysydd gwaith y darparwr hefyd. Bydd angen i arolygwyr ystyried yn ofalus pa mor gyson yw athrawon ac arweinwyr o ran yr arfer sy’n cefnogi deilliannau cadarnhaol a lefelau lles uchel ar gyfer dysgwyr.

3 Mae perfformiad ac arferion cryf iawn yn golygu bod ansawdd a darpariaeth ar flaen y gad yn y sector. Felly, mae angen i arolygwyr ofyn iddyn nhw eu hunain a yw hyn ymhlith y gorau y maent wedi’i weld yn y sector.

4 Pan fydd perfformiad ac arfer mewn maes arolygu yn cynnwys sydd angen mân welliant o hyd, bydd angen i arolygwyr ystyried p’un a yw’r diffygion yn gogwyddo’r farn yn fwy tuag at ‘da’ yn hytrach na ‘rhagorol’. Wrth lunio eu barnau, bydd angen i arolygwyr bwyso a mesur arwyddocâd unrhyw ddiffygion a’u heffaith ar gynnydd, cyflawniad a lles disgyblion. At ei gilydd, mae arferion cryf iawn a chynaledig yn dangos deilliannau a darpariaeth o ansawdd uchel, yn aml ochr yn ochr â nodweddion o ansawdd da. Pan fydd nodweddion o ansawdd digonol yn unig, yna mae barn ‘rhagorol’ yn gyffredinol yn annhebygol.

5 Wrth ystyried barn ‘rhagorol’, dylai arolygwyr fod yn glir yn gyntaf ynglŷn â chryfderau’r perfformiad a’r arferion cyn symud i ystyried p’un a ydynt wedi cael eu cynnal hefyd.

6 Ni ddylai perfformiad ac arferion cryf nad ydynt yn cael eu cynnal sicrhau barn ‘rhagorol’. Er enghraifft, dylai arolygwyr adrodd yn gadarnhaol ar fentrau diweddar sy’n cael effaith gref iawn ar gynnydd a lles disgyblion, ond efallai na fydd y rhain ar eu pen eu hunain yn sicrhau barn ragorol gan ei bod yn annhebygol y bydd digon o dystiolaeth o’u cynaliadwyedd a’u heffaith dros gyfnod gan mai megis dechrau cael eu rhoi ar waith y maent.

7 Mae perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig, hefyd yn golygu y dylai’r darparwr allu defnyddio arfer o’r fath i gynnig arweinyddiaeth i’r sector er mwyn i’r arfer allu bod yn ddylanwadol fel enghraifft o waith o ansawdd uchel. Bydd angen i arolygwyr ystyried

p'un a yw arfer o'r fath yn werth ei lledaenu at y diben hwn.  Nid oes angen i'r darparwr fod wedi rhannu ei arfer eisoes er mwyn i farn 'rhagorol' gael ei dyfarnu iddo.

8 Gallai perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig gynnwys gwaith arloesol sydd ar flaen y gad sy'n gwthio'r ffiniau, ond efallai nad yw hyn yn wir.  Pan fydd arfer gref iawn wedi cael ei chynnal dros gyfnod, yna mae'n bosibl nad yw efallai'n arloesol neu'n unigryw.  Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn hynod effeithiol.

9 Nid oes gan Estyn gwota rhagnodedig ar nifer neu gyfran y barnau 'rhagorol' y gall arolygwyr eu llunio.  Mae arolygwyr yn rhydd i lunio unrhyw farn ar yr amod ei bod wedi'i seilio'n gadarn ar y meini prawf yn y llawlyfrau arweiniad arolygu a'r dystiolaeth o'u blaenau.  Mae prosesau sicrhau ansawdd Estyn yn cynnwys dilysu a chymedroli'r holl farnau yn drylwyr.  Mae hyn yn cynnwys gwirio'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r barnau, yn ogystal â chroesgyfeirio â barnau tebyg sy'n cael eu llunio ar arolygiadau eraill.